Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Microsoft Teams: Defnyddio cyfieithu ar y pryd dynol

Canllawiau i drefnwyr

Mae cyfieithu ar y pryd yn caniatáu i gyfieithwyr dynol gyfieithu'r hyn y mae'r siaradwr yn ei ddweud i iaith arall heb amharu ar y siaradwr.

Bydd hyn yn caniatáu cyfarfodydd mwy cynhwysol, lle gall cyfranogwyr sydd ddim o reidrwydd yn siarad yr un iaith gydweithio. Yn ein hachos ni yn Llywodraeth Cymru, mae hyn yn golygu y gallwn ddefnyddio mwy o Gymraeg yn ein cyfarfodydd.

Mae'r canllawiau yn esbonio sut i:

- drefnu eich cyfieithydd dynol
- drefnu cyfieithu ar y pryd dynol ar Teams
- ddynodi cyfieithydd dynol yn ystod y cyfarfod
- trefnu cyfieithu ar y pryd drwy flwch post a rennir
- ymuno â chyfarfod
- canllawiau a thempledi ar gyfer mynychwyr
- cymorth pellach

**Cliciwch yma i weld y canllaw hwn ar ffurf fideo.**

## Trefnu eich cyfieithydd dynol

Eich cam cyntaf yw trefnu cyfieithydd dynol a derbyn eu cyfeiriad e-bost unigol fel bod modd i chi eu gwahodd nhw i'r cyfarfod a'u dynodi fel cyfieithydd yn opsiynau'r cyfarfod.

**Sylwer:** Rhaid i chi brofi dolen y cyfarfod gyda'ch cyfieithydd 15-30mun cyn y cyfarfod. Mae'n bwysig eich bod yn profi ar ddolen y cyfarfod ei hun.

## Trefnu cyfieithu ar y pryd dynol ar Teams

Gallwch chi ychwanegu cyfieithu ar y pryd dynol at unrhyw gyfarfod wedi'i drefnu, cyfarfod sianel a gweminar. Gallwch hefyd ddefnyddio cyfieithu o fewn ystafelloedd trafod ('breakout rooms'). Fodd bynnag, nid yw'r cyfieithu ar gael ar hyn o bryd mewn digwyddiadau 'Town Hall'.

Bydd angen:


1. **Creu cyfarfod wedi'i drefnu yn Teams** - naill ai yn Teams neu Outlook - ac anfon y gwahoddiad. Sicrhewch fod eich cyfieithydd dynol yn cael ei ychwanegu at wahoddiad y cyfarfod.
2. **Agorwch Ddewisiadau'r Cyfarfod** ar gyfer y cyfarfod lle mae angen cyfieithu ar y pryd.
3. Cliciwch **Galluogi cyfieithu ar y pryd** a chwiliwch am y cyfieithydd gan ddefnyddio eu henw neu gyfeiriad e-bost.

   **Sylwer:** Os nad yw enw'r cyfieithydd yn ymddangos ar y rhestr, ni fyddwch yn gallu eu dynodi fel cyfieithydd **cyn** i chi ddechrau'r cyfarfod. Os yw hyn yn digwydd, bydd angen i chi ddynodi rôl y cyfieithydd i fynychwr arall dros dro. Ni all hwn fod yn gyd-drefnydd.

   Bydd angen i chi ail-ddynodi'r rôl i'r cyfieithydd go iawn yn ystod prawf y cyfarfod. I gael cyfarwyddiadau ar sut i wneud hyn, sgroliwch i lawr i **'Dynodi cyfieithydd dynol yn ystod y cyfarfod'.**

   Os ydych chi'n trefnu cyfarfod o flwch post a rennir, sgroliwch i lawr i **'Trefnu cyfieithu ar y pryd drwy flwch post a rennir'** am gyfarwyddiadau penodol.

4. Dewis yr iaith wreiddiol a'r iaith darged (yn fwyaf tebygol o fod yn gyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg).
5. Cliciwch **Cadw** ac anfon diweddariad y cyfarfod.




**Sylwer:**

- **Mae ffin goch o amgylch unrhyw un o'r meysydd, yn dangos gwall**.
- Os oes angen **mwy nag un sianel gyfieithu** arnoch e.e. Ffrangeg i'r Gymraeg a'r Gymraeg i'r Ffrangeg, bydd angen i chi greu sianeli gyfieithu ar wahân, un ar gyfer pob pâr iaith.

- Gallwch barhau i wneud **newidiadau i osodiadau'r cyfarfod** cyn dechrau'r cyfarfod OND ar ôl i'r cyfarfod ddechrau, ni fydd unrhyw newidiadau yn dod i rym oni bai eich bod yn stopio'r cyfarfod ar gyfer yr holl fynychwyr (gan gynnwys eich hun), ac yna ailgychwyn y cyfarfod.
- Bydd **recordiadau'r cyfarfod** yn dal sain y brif sianel (iaith wreiddiol) yn unig, ac nid sain y cyfieithydd.
- **Bydd capsiynau dim ond yn dangos geiriau'r siaradwr iaith wreiddiol**. Os yw'r iaith wreiddiol yn newid, bydd angen i drefnydd y cyfarfod newid y capsiynau i'r iaith newydd sy'n cael ei siarad, â llaw. Nid yw Teams yn gallu canfod newidiadau mewn iaith lafar yn awtomatig.
- **Dylech osod cyd-drefnwyr i'r cyfarfod bob tro** i sicrhau bod mwy nag un trefnydd cyfarfod yn gallu cael mynediad at opsiynau'r cyfarfod a gwneud newidiadau.

  **Cliciwch yma am gyfarwyddiadau Microsoft Support ar ychwanegu cyd-drefnwyr at gyfarfod.**

  **Cliciwch yma i weld enghraifft fideo.**

# Dynodi cyfieithydd dynol yn ystod y cyfarfod

Yn ystod cyfarfod Teams, gallwch ddynodi cyfieithydd dynol cyn belled â'u bod wedi derbyn gwahoddiad y cyfarfod. Fel trefnydd neu gyd-drefnydd, mae modd i chi ddynodi rôl y cyfieithydd yn y panel pobl o fewn y cyfarfod Teams.

**Cliciwch yma i gael cyfarwyddiadau Microsoft Support ar ddynodi cyfieithydd unwaith y bydd cyfarfod wedi dechrau.**

**Cliciwch yma i weld enghraifft fideo.**

# Trefnu cyfieithu ar y pryd drwy flwch post a rennir

Gallwch drefnu cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd Teams lle mae gwahoddiad wedi'i ddanfon o flwch post a rennir. Nid yw mynediad at flwch post a rennir yn golygu eich bod yn drefnydd neu yn gyd-drefnydd yn awtomatig ar gyfer cyfarfod Teams.


I ddynodi neu ail-ddynodi rolau fel y cyfieithydd mewn cyfarfod Teams, rhaid i chi fod yn drefnydd neu'n gyd-drefnydd. Wrth ddynodi cyd-drefnydd, gwnewch yn siŵr eich bod yn enwi unigolyn penodol yn hytrach na blwch post a rennir. Dylid cwblhau hyn cyn y cyfarfod gan ddefnyddio opsiynau'r cyfarfod.

Cyn y cyfarfod, gall drefnydd neu gyd-drefnydd ddynodi rolau yn opsiynau'r cyfarfod drwy ddefnyddio calendr y blwch post a rennir. Yn ystod y cyfarfod, byddwch dim ond yn gallu ail-ddynodi rolau yn y panel pobl. Mae hyn yn cynnwys y gallu i ail-ddynodi rôl y cyfieithydd os oes angen.

**Cliciwch yma i weld enghraifft fideo.**

# Ymuno â chyfarfod

Pan fyddwch chi'n ymuno â'r cyfarfod am y tro cyntaf, fe welwch chi flwch neidlen (pop-up) yn nodi 'Dewiswch yr iaith ddehongli' (ry'n ni'n gwybod bod y pennawd yn y blwch Cymraeg yn anghywir ar hyn o bryd ac wedi gofyn i Microsoft ei gywiro).




Dewiswch eich iaith o'r rhestr sydd ar gael.




### Dewis yr iaith hoffech chi glywed


Bydd ieithoedd y cyfarfod yn cael eu pennu gan ofynion y cyfarfod ac yn cael eu gosod gan drefnydd y cyfarfod.

Mae ‘Sain Wreiddiol’ bob tro ar gael fel dewis a dyma’r iaith sy’n cael ei siarad ar ‘lawr’ y cyfarfod. Os ydych chi’n deall holl ieithoedd y llawr, gallwch ddewis yr opsiwn hwn. Fyddwch chi ddim yn clywed unrhyw gyfieithiad ar y pryd o gwbl os dewiswch chi ‘Sain Wreiddiol.’

Os dewiswch chi iaith arall, er enghraifft Saesneg, yna fe glywch chi lais dynol yn cyfieithu ar y pryd i’r Saesneg pan fydd iaith arall yn cael ei siarad.

**Dewis eich dewis iaith gan ddefnyddio'r ddewislen 'Mwy' (...)**

Os yw’r neidlen yn diflannu cyn i chi gael cyfle i ddewis eich iaith, ewch i’r bar offer, cliciwch ar ‘Mwy’ (...), wedyn ‘Iaith a lleferydd’, cliciwch ‘Iaith ddehongli’ a dewiswch iaith.




Byddwch bellach yn gallu clywed y cyfarfod a'r cyfieithiad.

# Canllawiau a thempledi ar gyfer mynychwyr

Defnyddiwch ein cyfarwyddiadau a'n templed ar gyfer trefnwyr cyfarfodydd.

# Cymorth pellach

Edrychwch yn adran cwestiynau cyffredin Microsoft Support. Neu, cysylltwch â ni Cymraeg2050@llyw.cymru.